**EUR-03-99(p.5)**

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**Dyddiad:** 25 Tachwedd 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Adroddiad ar ymweliad arfaethedig Aelodau'r Pwyllgor i Frwsel**

**Pwrpas:**

1. Cynghori ar y trefniadau arfaethedig i aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd fynd ar drip busnes i Frwsel.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i aelodau'r pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn, a chytuno i'r trefniadau am daith gwaith.

**Amseriad**

3. Cyngor swyddogion yw mai'r amser mwyaf addas ar gyfer ymweliad o'r natur hon fyddai rhyw ben yn gynnar yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf, i gyd daro ag agor swyddfeydd newydd Canolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel (ble y lleolir cynrychiolaeth y Cynulliad ei hun hefyd).

**Amcan y Daith**

4. Rhydd yr ymweliad gyfle i Aelodau Cynulliad gynnal sesiynau briffio gyda phobl allweddol yn y Comisiwn a hefyd cyfarfod a chabinets o Gomisiynwyr. Byddai'n bosibl i'r grp hefyd dreulio peth amser yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru a chyfarfod â'r bobl sy'n cynnal gwaith y ganolfan o ddydd i ddydd. Gall y grp hefyd ymweld â'r Senedd Ewropeaidd.

**Goblygiadau Cyllidol**

5. Clustnodwyd arian yng nghyllideb y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer yr ymweliad hwn.

**Cyswllt**

6. Yr Adran Materion Ewropeaidd